Taflen Reoli

Enw	Fersiwn	Dyddiad
VAT	Drafft 1	03.03.08
TK	Drafft 2	12.03.08
DP	Terfynol	14.03.08

Cyfarfod Grŵp Llywio Aelodau Prosiect Gwyrdd	
18 Chwefror 2008, Neuadd y Sir, Caerdydd	
Yn Bresennol:	**Talfyriad**
Aelodau Etholedig:	
Y Cynghorydd David Poole, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cadeirydd)	DP
Y Cynghorydd Gerald Jones, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	GJ
Y Cynghorydd Simon Wakefield, Cyngor Sir Caerdydd	SW
Y Cynghorydd Ray Truman, Cyngor Dinas Casnewydd	RT
Y Cynghorydd Eric Saxon, Cyngor Sir Fynwy	ES
Y Cynghorydd Peter Fox, Cyngor Sir Fynwy	PF
Y Cynghorydd Robert Curtis, Cyngor Bro Morgannwg	RC
Y Cynghorydd Neil Moore, Cyngor Bro Morgannwg	NM
Swyddogion:	
Clifford Parish, Cyngor Bro Morgannwg	CP
Dave Harris, Cyngor Sir Fynwy	DH
Mark Williams, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	MW
Stephen Davison, Cyngor Dinas Casnewydd	SD
Steven Phillips, Cyngor Sir Caerdydd	SP
Tara King, Rheolwr Prosiectau	TK
Victoria Thorne, Gweinyddwr y Prosiect	VT
Hrjinder Singh, Swyddog Cyllid Arweiniol	HS
Marcia Sinfield, Rheolwr Cyfrifeg Prosiect, Caerdydd	MS
Dr. Cherie Whiteman, Parsons Brinckerhoff	CW
Ymddiheuriadau:	
	MS
Y Cynghorydd Mark Stephens, Cyngor Sir Caerdydd	JG
Y Cynghorydd Guy, Cyngor Dinas Casnewydd	

Rhif	Eitem	Cam Gweithredu
	Cyflwynodd y Cadeirydd Tara King, Rheolwr Prosiect ar gyfer Prosiect Gwyrdd.	Nodwyd
1	**Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**	
	Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Hydref 2007.	Nodwyd
2	**Materion yn Codi**	
1/08	4 ii a iii – Gofynnodd y Cadeirydd i'r Swyddogion ddarparu cyfansoddiad sylfaenol ar gyfer yr aelodau, eglurodd MW bod MOU yn bodoli, wedi'i lofnodi ym mis Medi 2007 a hyd yn hyn nid oed cyfeiriad cytûn o ran presenoldeb ac ati, atgoffodd y Grŵp bod y cam hwn o'r prosiect yn agosáu at y diwedd a byddai gofyn i'r Cynghorau gytuno ar Gylch Gorchwyl mwy manwl ar gyfer Cydbwyllgor i ddechrau yn y cam nesaf.	Nodwyd
2/08	6 – Gofynnodd i'r Cadeirydd am sylwadau ar y llythyr a anfonodd ar ran yr MSG i Lywodraeth y Cynulliad. Roedd pob un ohonynt wedi dangos eu siom am ddiffyg ymrwymiad ac ymglymiad gan Lywodraeth y Cynulliad. Ychwanegodd y Cadeirydd bod angen pwysau pellach ar Lywodraeth y Cynulliad i newid eu hallgynnyrch. Cytunwyd. SP/TK i ddilyn hyn gyda Phartneriaethau y DU a Llywodraeth y Cynulliad ar lefel swyddogion, Aelodau i drafod hyn ar lefel wleidyddol wrth i gyfleoedd godi.	SP/TK PAWB
3/08	7 – Amserlen ar gyfer y cam nesaf a chopi o strwythur presennol Prosiect Gwyrdd i'w darparu	TK
3	**Adroddiad Rheolwr y Prosiect**	
4/08	Nododd TK fod creu OBC yn beth parhaus, mae model fforddiadwyedd yn cael ei strwythuro, fel y cynghorir gan Grant Thornton, sydd wedyn yn cael ei boblogeiddio gan bob awdurdod lleol ac mae gweddill y gwaith ar gynllunio llywodraethu yng nghyd-destun cynllun gwastraff rhanbarthol yn barhaus. Ychwanegodd TK y dylai gwybodaeth ddrafft fod ar gael ganol mis Mawrth ar gyfer adolygiad Grŵp Llywio Aelodau, mae gwaith paratoadol pellach ar lywodraeth i gam 2 a gwybodaeth gaffael i'w chynnwys yn yr adroddiad i'w gyflwyno i'r Cabinetau/Gweithrediadau yn parhau i fod angen ei wneud, felly bydd angen gwneud penderfyniad oddeutu pwyllgor Gorffennaf i symud ymlaen at y cam nesaf.	Nodwyd
5/08	Disgwylir gosod hysbyseb OJEU ym mis Gorffennaf.	Nodwyd
6/08	Gofynnodd y Cadeirydd a fydd fersiwn drafft yr OBC yn cael ei adolygu gan Lywodraeth y Cynulliad. Dywedodd TK bod gwaith wedi dechrau gyda Phartneriaethau'r DU sy'n gweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i adolygu pob partneriaeth yng Nghymru. Nid yw'r penderfyniad i gyflwyno'r drafft i Lywodraeth y Cynulliad wedi'i gymryd gan fod pryder y byddai amser y prosiect yn dioddef os caiff ei oedi gan adolygiad Llywodraeth y Cynulliad. Gofynnodd TK i'r aelodau am eu barn.	

	Nododd y Cadeirydd y dylai drafft gael ei adolygu gan yr aelodau ac yna ei gyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad, yna bydd OBC terfynol ac argymhellion atodedig yn cael eu cymeradwyo gan yr awdurdodau partner unigol.	Nodwyd
7/08	Awgrymodd MW y gellid cynnal sesiwn briffio Cabinetau ar y Cyd i gyflwyno'r OBC a drafftiau llywodraethu cyn yr adroddiadau ffurfiol. Cytunodd ES y byddai hyn o fudd gan y bydd yn sicrhau bod pob aelod yn cael yr un wybodaeth. Cytunodd pawb. TK i drefnu.	Cytunwyd TK
8/08	Gofynnodd TK i'r aelodau awgrymu yr amser mwyaf addas ar ôl etholiadau ar gyfer seminar Cabinetau/Gweithrediadau ar y cyd ar gyfer OBC/Llywodraethu. Awgrymodd y Cadeirydd ddechrau i ganol Mehefin.	Cytunwyd
09/08	Nododd PF ei bod yn bwysig pennu rhaglenni gwaith craffu a chabinet cyn gynted â phosibl. Awgrymodd MW i aelodau ddarparu rhaglenni gwaith Cabinet a Chraffu i TK. TK i ddrafftio rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.	TK
10/08	Awgrymodd SW y dylai Llywodraeth y Cynulliad bennu dyddiad cau ar gyfer adolygiad, cytunodd y Cadeirydd. SP/TK i ddilyn hyn drwy drafodaethau a Phartneriaethau'r DU	Cytunwyd SP/TK
4	**Cynnydd Tuag at yr Achos Busnes Amlinellol**	
11/08	Nododd SP fod yr OBC yn cael ei lunio yn dilyn fformat DEFRA y mae PFI yn ymgeisio yn erbyn. Ychwanegodd SP bod pob aelod yn ymwybodol o'r targedau heriol a bennwyd gan y Gweinidog, Jane Davidson. Mae angen i bob partner roi camau gweithredu ar waith i gyflawni'r targedau hyn.	Nodwyd
12/08	Defnyddir prosiect cyfeirio a bydd yn seiliedig ar amrywiaeth o feini prawf gwerthuso.	Nodwyd
13/08	Bydd y partneriaid yn gofyn i'r farchnad ddarparu atebion ar gyfer gwaredu eu gwastraff.	Nodwyd
14/08	Cynnal gwerthusiad opsiynau	Nodwyd
15/08	Ar hyn o bryd edrychir ar Reoli Risgiau, Strwythur Contract a Llywodraethu Prosiect. Mae gwaith ar gyfathrebu yn dechrau gyda gwefan i'w lansio yn y dyfodol agos.	Nodwyd
16/08	Nododd SP mai Enillydd Cystadleuaeth Logo Ysgol yw Bethan Lowrie o Fro Morgannwg.	Nodwyd
17/08	Caffael i gymryd o leiaf 18 mis	Nodwyd
5	**Datblygiadau mewn Materion Rheoli Gwastraff gan Lywodraeth y Cynulliad**	
18/08	Nododd MW fod Aelodau wedi cytuno i adolygu'r adroddiad a luniwyd gan Eunomia.	Nodwyd
19/08	Nododd SD fod posibilrwydd na fyddai awdurdodau yn cyflawni eu targedau ailgylchu. Nododd y Cadeirydd fod y targedau yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan RhCT, o ran gwastraff bwyd, sydd wedi cynnal treialon ar hanner o'u hawdurdod. Ychwanegodd SD y bydd y targedau	

	yn effeithio ar faint y cyfleuster sy'n hanfodol i'r prosiect. Ychwanegodd TK bod y materion hyn yn cael eu trafod yn asesiad risg y prosiect a phrofi sensitifrwydd ar y modelau fforddiadwyedd.	Nodwyd
6	**Gwerthusiad Opsiynau Technoleg**	
20/08	Gwnaeth CW gyflwyniad (atodedig). Pwysleisiodd CW fod y meini prawf a'r opsiynau a gytunwyd at ddibenion yr OBC ac ar gyfer caffael, ond gellir cynnal profion realiti i adolygu'r sgorau a'r pwysiadau cyn caffael.	
21/08	Amlinellodd CW y meini prawf sydd wedi'u dileu i amlygu'r ffaith bod y gweithdrefnau cywir wedi'u dilyn gan y bartneriaeth.	
7	**Prosiect Gwyrdd: Ffactorau Risg sy'n Gysylltiedig â'r Prosiect**	
22/08	Gwnaeth CW gyflwyniad (atodedig) a oedd yn amlinellu'r broses o asesu risgiau. Ychwanegodd CW fod yr holl risgiau yn bwysig i'r prosiect ac aseswyd y broses o liniaru a rheoli'r risgiau hyn. Nododd CW fod Cofrestru Risgiau'r Prosiect i'w chwblhau a bydd pob awdurdod yn llunio eu Cofrestru eu hunain ar gyfer rheoli unigol. Nododd TK fod Cofrestr Risgiau'r Prosiect wedi ei derbyn yn ôl gan gynghorwyr yn barod ar gyfer adolygiad terfynol.	Nodwyd
23/08	Nododd CW ei bod yn bwysig dogfennu pob risg fel na chânt eu hanwybyddu yn ddiweddarach.	Nodwyd
24/08	Nododd CW y bydd y broses sgorio ar gyfer y risgiau yn newid drwy gydol y prosiect.	Nodwyd
25/08	Eglurodd CW y sgorio a'r broses liniaru arfaethedig ar gyfer y risgiau a nodwyd a dywedodd y dylid adolygu'r risgiau yn ystod camau amrywiol drwy gydol y broses i sicrhau bod y ffactorau lliniaru hynny yn cael eu gwireddu a'u rheoli.	Nodwyd
26/08	Diolchodd y Cadeirydd CW am y cyflwyniad cynhwysfawr.	
8	**Sesiwn Cwestiwn ac Ateb**	
27/08	Nododd PF fod y LDP wedi nodi twf sylweddol ym maes tai a gofynnodd a yw hyn wedi'i gynnwys yn y rhagolygon. Cadarnhaodd CW bod hyn wedi'i wneud.	Nodwyd
28/08	Holodd y Cadeirydd a yw ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i leihau deunydd pecynnu wedi'i gynnwys yn y twf gwastraff. Nododd CW fod y prosiect yn seiliedig ar ddefnydd presennol gwastraff a'i fod yn cynnwys rhagolygon rhesymol. Ychwanegodd DH fod Twf Gwastraff yn anodd ei farnu. Ychwanegodd TK fod pob rhagdybiaeth wedi'i gofrestru a'i gofnodi ac yn dilyn adolygiad o'r risgiau gallai'r rhagdybiaethau newid. Gofynnodd y Cadeirydd a fydd y rhagdybiaethau ar gael i'r aelodau. Nododd TK y bydd y rhagdybiaethau yn cael eu cynnwys yn yr OBC. Ychwanegodd y Cadeirydd y gallai'r rhagdybiaethau a wnaed yn 2008 fod yn wahanol yn 2010 ac mae angen tystiolaeth o'r penderfyniadau. Cytunodd TK bod angen llwybr clir i helpu aelodau gydag unrhyw	Nodwyd

	benderfyniadau a wneir yn y dyfodol.	
29/08	Gofynnodd RC pa ddiogelwch a fyddai'n cael ei ddarparu rhag ofn bydd 1 awdurdod neu fwy yn rhoi'r gorau i fod yn aelod. Awgrymodd CW y dylid gosod dyddiad cau ar gyfer rhoi'r gorau iddi. Ychwanegodd y Cadeirydd fod cryfder mewn consortiwm. Nododd RC y gallai marchnadoedd preifat geisio denu awdurdodau unigol. Nododd TK fod yr OBC yn seiliedig ar dunelleddau cyfunedig a bydd yn rhaid ei addasu pe byddai aelod yn penderfynu gadael y prosiect, ond cytunodd fod hon yn sefyllfa a allai beryglu yr holl broses gaffael ac mae angen cael dyddiad cau.	Nodwyd
30/08	Nododd TK yn yr un modd y bydd yr OBC hefyd yn cynnwys sefyllfa risg i gynrychioli'r dirwyon posibl pe byddai'r grŵp yn methu â chyflawni'r targedau ailgylchu o 65%. Awgrymodd y Cadeirydd bod angen cytundeb cyfreithiol gyda dirwyon ariannol ar gyfer gadael y prosiect. TK i drefnu drwy'r tîm cyfreithiol	TK
31/08	Holodd ES a allai'r grŵp ymweld â chyfleuster EfW gweithredol yn y wlad hon i gael gwell dealltwriaeth a siarad â phobl sydd wedi ymgymryd â phrosiectau tebyg. Awgrymodd MW bartneriaeth Reading, Berkshire a Wokingham yn Lloegr. Holodd CP a dylid gohirio CP nes y penderfynir ar y prosiect cyfeirio.	
32/08	Gofynnodd PF am gytundebau partneriaeth ffurfiol ac ychwanegodd bod amrywiadau rhwng partneriaid o ran maint awdurdodau a chostau pob un. Nododd y Cadeirydd y gellid trafod hyn drwy ffioedd gât ar gyfer awdurdodau sy'n creu llai o wastraff. Nododd MW bod yn rhaid cytuno ar faterion llywodraethu cyn caffael e.e. cyfradd elw a strwythurau ffioedd gât ac ati. Ychwanegodd MW bod y cynghorwyr cyfreithiol Pinsent Masons yn mynd i gynnal gweithdy ar lywodraethu yn fuan ar gyfer cynigion ar gyfer y cynnwys ar gyfer llywodraethu ar gyfer yr adroddiad sydd hefyd wedi'i gynnwys yn yr OBC. Ychwanegodd TK y bydd canlyniadau'r gweithdy yn cael eu cyflwyno i Gyfarfod Grŵp Llywio yn y dyfodol a gellir eu trafod yn y Seminar Aelodau ym mis Mehefin.	TK Cytunwyd
9	**Unrhyw Fater Arall**	
33/08	Dim byd i'w nodi.	
10	**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**	
34/08	Cynigiodd y Cadeirydd gynnal y cyfarfod nesaf yn y swyddfeydd newydd yn Nhredomen, yr wythnos cyn 22 Mawrth.	TK